Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

| | |
|---|---|
| **Rhif y drwydded:** | **GEN / WCA / 020 / 2023** |
| **Yn ddilys o:** | **1af Ionawr 2023** |
| **Diwedd:** | **31ain Rhagfyr 2023** |

**DEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981 (FEL Y'I DIWYGIWYD)**

**TRWYDDED I DDAL CARLWM EURASIAIDD AT Y DIBEN O WARCHOD ADAR GWYLLT**

Mae'r drwydded hon, a roddwyd o dan adran 16 (3) (c), 16 (3ZA), 16 (3ZZA) a (5) o Ddeddf bywyd gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) (y Ddeddf), gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru, a adwaenir fel arall fel Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), yn caniatáu i berson sydd yn weithredol mewn gwarchod adar gwyllt i ladd gyda trap carlwm Eurasiaidd, a drwy hyn yn rhoi'r drwydded ganlynol sy'n gymwys yn unig yng Nghymru:-

1. Diben y drwydded hon yw gwarchod adar gwyllt.

2. Yn ddarostyngedig i'r telerau a'r amodau isod, ac at y diben a nodir ym mharagraff 1 Mae'r drwydded hon yn caniatáu:

   (i) unrhyw berson sydd yn weithredol mewn gwarchod adar gwyllt i drapio

   **Carlwm Eurasiaidd** ***mwstela erglodda***

   trwy ddefnyddio'r trapiau cymeradwy canlynol :-

   Trapiau lladd o'r mathau canlynol

   DOC 150;
   DOC 200;
   DOC 250
   Trap Tully
   Goodnature a24 Rat & trap carlwm phlanhigio
   Trap spring Perdix

   ddarostyngedig i'r amodau a bennir yn y drwydded hon.

Trwyddedir y camau a nodir uchod ar gyfer y cyfnod a **nodir uchod**, caiff ei roi yn amodol ar gydymffurfio â'r amodau a nodir. Gall unrhyw beth a wneir heblaw yn unol â thelerau ac amodau'r drwydded fod yn drosedd.

Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran
**Cyfoeth Naturiol Cymru**

Tel/Ffôn 0300 065 4974/0300 065 4921

EbostE-bost trwyddedrhywogaeth@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk Neu specieslicence@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Cyfoeth Ffetys Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2DW

Croesewir gohebiaeth ynn y Gymraeg a ##'r Saesneg Croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg

| **Amodau** | |
|---|---|
| 1. | Rhaid i unrhyw berson sydd wedi'i awdurdodi gan y drwydded hon sicrhau ei fod wedi darllen a deall telerau ac amodau'r drwydded hon cyn ymgymryd â gweithgareddau trwyddedig. (Gweler nodyn 3). |
| 2. | Os oes angen ichi weithredu na chaniateir gan y drwydded hon (e.e. defnyddio cerbydau) ar dir sydd wedi'i ddynodi'n safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA) yna efallai y bydd angen i chi wneud cais i Cyfoeth Naturiol Cymru am ganiatâd. |
| 3. | Rhaid cymryd pob rhagofal rhesymol i osgoi dioddefaint diangen o'r carlymod sydd wedi'u dal o dan y drwydded hon. |
| 4. | a) Rhaid i'r defnydd o unrhyw fagl o dan y drwydded hon fod yn unol â'r amodau canlynol:<br>(i) Rhaid i bob person sy'n defnyddio'r drwydded hon a'r holl drapiau a ddefnyddir gan y personau hynny gydymffurfio â Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Cymru) 2019.<br>(ii) Rhaid i bob person sy'n defnyddio'r drwydded hon gydymffurfio â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd sy'n berthnasol i'r math o drap a weithredir o dan y drwydded hon.<br>(iii) Rhaid peidio â thynnu na rendro unrhyw farc parhaol sydd gan y gwneuthurwr ar y trap. |
| 5. | At bob archwiliad rhaid tynnu unrhyw carlwm marw neu unrhyw anifail marw arall, sydd wedi'i ddal yn y trap, oddi arno a'i waredu mewn modd cyfreithlon. |
| 6. | Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n dymuno defnyddio trapiau byw i reoli carlymod wneud cais am drwydded unigol gan Cyfoeth Naturiol Cymru. |

| **Nodiadau** | |
|---|---|
| 1. | Os methir â gweithredu yn unol â diben y drwydded fely'i nodir ym mharagraff 1, neu os methir â chydymffurfio ag unrhyw un o amodau'r drwydded,gall olygu na ellir dibynnu ar y drwydded ac y gellir cyflawni tramgwydd. |
| 2. | Gall y drwydded hon gael ei newid neu ei dirymu ar unrhyw bryd. |
| 3. | **Cynghorir unrhyw berson sy'n bwriadu cyflawni gweithgareddau o dan y drwydded hon i argraffu, llofnodi a dyddio copi a'i gadw i'w archwilio.** |

| **DIFFINIADAU** | |
|---|---|
| 1. | Pwy all ddefnyddio'r drwydded hon<br>a. Gall y drwydded hon gael ei defnyddio dim ond gan berson sy'n ymwneud yn weithredol â chadwraeth adar gwyllt a chan bobl sy'n gweithredu ar eu rhan.<br>b. Mae hyn yn eithrio unrhyw berson a gollfarnwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2010 o **drosedd bywyd gwyllt** (oni bai, mewn perthynas â'r tramgwydd hwnnw, naill ai:<br>• os ydynt yn berson wedi'i adsefydlu at ddibenion Deddf Adsefydlu Tramgwyddwyr 1974 a bod y gollfarn yn cael ei thrin fel pe bai wedi'i disbyddu; neu<br>• Mae llys wedi gwneud Gorchymyn yn eu rhyddhau yn llwyr.)<br>Bydd unrhyw gais am drwydded unigol a wneir gan berson y mae'r gwaharddiad hwn yn berthnasol iddo yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod<br>Ystyr "gwarchod adar gwyllt" yw gwarchod unrhyw rywogaeth o adar sy'n preswylio fel arfer mewn neu sy'n ymwelydd ag unrhyw Aelod-wladwriaeth neu diriogaeth Ewrop unrhyw Aelod-wladwriaeth mewn cyflwr gwyllt ond nid yw'n cynnwys dofednod. Mae hyn yn cynnwys pob cam o'r wŷ i'r oedolyn. |